CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 45 (Cy.4)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2002

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 356(1) a (2) o Ddeddf Addysg 1996 yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i sefydlu'r Cwricwlwm Cenedlaethol drwy bennu, drwy Orchymyn, y targedau cyrhaeddiad, y rhaglenni astudio a'r trefniadau asesu y mae'n barnu eu bod yn briodol ar gyfer pob un o'r pynciau sylfaen. Mae'r ddyletswydd honno wedi'i datganoli ac i'w harfer gan y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru.

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys i ysgolion yng Nghymru yn unig, yn ailddeddfu (gyda rhai newidiadau a grybwyllir isod) Orchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 1) (Cymru) 1997. Mae'r Gorchymyn yn pennu'r trefniadau asesu ar gyfer disgyblion sy'n astudio "pynciau perthnasol" y Cwricwlwm Cenedlaethol ym mlwyddyn olaf y Cyfnod Allweddol cyntaf. Mae'r "pynciau perthnasol" wedi'u diffinio fel mathemateg, gwyddoniaeth ac, mewn perthynas ag ysgolion a dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg (fel y'u diffinnir yn erthygl 3(1)), Cymraeg neu mewn perthynas ag ysgolion a dosbarthiadau nad ydynt yn rhai cyfrwng Cymraeg, Saesneg.

Mae Erthygl 2 yn diddymu Gorchymyn 1997.

Mae Erthygl 3 yn diffinio'r termau sy'n cael eu defnyddio yn y Gorchymyn.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 45 (W.4)

# EDUCATION, WALES

# The Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for English, Welsh, Mathematics and Science) (Key Stage 1) (Wales) Order 2002

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Section 356(1) and (2) of the Education Act 1996 places a duty on the Secretary of State to establish the National Curriculum by specifying, by Order, such attainment targets, programmes of study and assessment arrangements as he considers appropriate for each of the foundation subjects. That duty has been devolved and falls to be exercised by the National Assembly in Wales.

This Order, which applies only to schools in Wales, re-enacts (with some changes as mentioned below) the Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for English, Welsh, Mathematics and Science) (Key Stage 1) (Wales) Order 1997. The Order specifies assessment arrangements for pupils studying "the relevant subjects" of the National Curriculum in the final year of the first Key Stage. "The relevant subjects" are defined as mathematics, science and, in relation to schools and classes which are Welsh speaking (as defined in article 3(1)), Welsh, or in relation to schools and classes which are not, English.

Article 2 revokes the 1997 Order.

Article 3 defines terms used in the Order.

Mae Erthygl 4 yn darparu bod disgyblion yn cael eu hasesu gan athro neu athrawes ac yn nodi diben asesiadau o'r fath.

Mae Erthygl 5 yn nodi'r rheolau technegol dros benderfynu lefel cyrhaeddiad y disgyblion yn ôl pwnc.

Mae Erthygl 6 yn nodi rheolau arbennig sy'n gymwys mewn perthynas â disgyblion nad yw darpariaethau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn gymwys iddynt (gan gynnwys disgyblion â datganiadau anghenion addysgol arbennig).

Mae Erthygl 7 yn ei gwneud yn ofynnol bod trefniadau yn cael eu gwneud ar gyfer gwerthuso'r trefniadau asesu.

Mae Erthygl 8 yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud darpariaeth sy'n rhoi effaith i'r darpariaethau sy'n cael eu gwneud gan y Gorchymyn neu sy'n ychwanegu atynt fel arall.

Yr unig newid o sylwedd sy'n cael ei wneud gan y Gorchymyn cyfredol yw'r ffaith nad yw'n darparu mwyach ar gyfer profion ar gyfer disgyblion. Gan hynny, mae erthyglau 5 a 6 o Orchymyn 1997 wedi'u hepgor.

Article 4 provides for pupils to be assessed by a teacher and sets out the purpose of such assessments.

Article 5 sets out the technical rules for determining pupils' levels of attainment subject by subject.

Article 6 sets out special rules which apply in relation to pupils in respect of whom provisions of the National Curriculum do not apply (including pupils with statements of special educational needs).

Article 7 requires arrangements to be made for the evaluation of the assessment arrangements.

Article 8 enables the National Assembly to make provision giving effect to or otherwise supplementing the provisions made by the Order.

The only change of substance made by the current Order is that it no longer makes provision for pupil tests. Accordingly, article 5 and 6 of the 1997 Order have been omitted.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 45 (Cy.4)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *14 Ionawr 2002* |
| *Yn dod i rym* | *4 Chwefror 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 356(2)(c) a (5) i (8) ac adran 568(5) a (6) o Ddeddf Addysg 1996(**a**) ac sydd wedi'u breinio bellach yn y Cynulliad(**b**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2002 a daw i rym ar 4 Chwefror 2002.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), mae'r darpariaethau yn y Gorchymyn hwn yn gymwys at ddibenion canfod cyraeddiadau disgyblion sydd ym mlwyddyn olaf y cyfnod allweddol cyntaf yn Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn unig.

(4) Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys at ddibenion canfod cyraeddiadau disgyblion mewn Cymraeg yn dilyn rhaglen astudio a elwir "Cymraeg Ail Iaith"(c).

(a) 1996 p.56. Diwygiwyd adran 356 (5) ac (8) gan baragraff 87 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31). Diwygiwyd adran 568(5) gan baragraff 175 o'r Atodlen honno.

(b) Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672).

(c) *Gweler* O.S. 2000/1101 (Cy.79) a'r ddogfen sy'n dwyn y teitl "Cymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol", ISBN 0 7504 24036.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 45 (W.4)

# EDUCATION, WALES

## The Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for English, Welsh, Mathematics and Science) (Key Stage 1) (Wales) Order 2002

| | |
|---|---|
| *Made* | *14th January 2002* |
| *Coming into force* | *4th February 2002* |

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 356(2)(c) and (5) to (8) and section 568(5) and (6) of the Education Act 1996(**a**) and now vested in the Assembly(**b**).

**Name, commencement and application**

**1**.-(1) This Order is called the Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for English, Welsh, Mathematics and Science) (Key Stage 1) (Wales) Order 2002 and shall come into force on 4th February 2002.

(2) Subject to paragraphs (3) and (4), the provisions of this Order apply for the purpose of ascertaining the achievements in English, Welsh, mathematics and science of pupils who are in the final year of the first key stage.

(3) This Order applies only to maintained schools in Wales.

(4) This Order does not apply for the purpose of ascertaining the achievements in Welsh of pupils following the programme of study known as "Welsh Second Language"(**c**).

(a) 1996 c.56. Section 356 (5) and (8) were amended by paragraph 87 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998 (c.31). Section 568(5) was amended by paragraph 175 of that Schedule.

(b) The National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) *See* S.I. 2000/1101 (W.79) and the document entitled "Welsh in the National Curriculum", ISBN 07504 24036.

**Diddymu**

**2**. Mae Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 1) (Cymru) 1997(**a**) yn cael ei ddiddymu.

**Dehongli**

**3**.-(1) Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "a bennir" ("*specified*"), onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yw a bennir mewn perthynas â'r cyfnod allweddol cyntaf, gan orchymyn adran 356(2)(a) a (b);

ystyr "yr Awdurdod" ("*the Authority*") yw'r awdurdod a elwir Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru(**b**);

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "y dogfennau cysylltiedig" ("*the associated documents*") yw'r dogfennau sy'n cael eu cyhoeddi gan yr Awdurdod, sy'n nodi'r lefelau cyrhaeddiad, y targedau cyrhaeddiad a'r rhaglenni astudio mewn perthynas â'r pynciau perthnasol, sef y dogfennau sy'n cael effaith yn rhinwedd y gorchmynion adran 356(2)(a) a (b) priodol ar gyfer y pynciau hynny sydd mewn grym am y tro(**c**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Addysg 1996;

ystyr "gorchmynion adran 356(2)(a) a (b)" ("*section 356(2)(a) a (b) orders*") yw gorchmynion sy'n cael eu gwneud o dan adran 356(2)(a) a (b) o'r Ddeddf ac sy'n pennu targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio mewn perthynas â'r pynciau perthnasol;

ystyr "y pynciau perthnasol" ("*the relevant subjects*") yw -

(i) mathemateg a gwyddoniaeth;

(ii) mewn perthynas ag ysgolion a dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg, Cymraeg; a

(iii) mewn perthynas ag ysgolion a dosbarthiadau nad ydynt yn rhai cyfrwng Cymraeg, Saesneg;

ystyr "TC" ("*AT*") yw targed cyrhaeddiad;

ystyr "tymor yr haf" ("*summer term*") yw'r trydydd

(a) O.S. 1997/2011.

(b) Sefydlwyd Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru o dan adran 14(1)(b) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p.40), parhaodd i fodoli o dan adran 360 o Deddf Addysg 1996 ac fe roddwyd ei enw cyfredol iddo gan adran 27(1) o Ddeddf Addysg 1997 (1997 p.34).

(c) Y gorchmynion cyfredol yw O.S. 2000/1154 (Cy.85) (Saesneg), O.S. 2000/1101 (Cy.79) (Cymraeg), O.S. 2000/1100 (Cy.78) (mathemateg) ac O.S. 2000/1099 (Cy.77) (gwyddoniaeth).

**Revocation**

**2**. The Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for English, Welsh, Mathematics and Science) (Key Stage 1) (Wales) Order 1997(**a**) is revoked.

**Interpretation**

**3**.-(1) In this Order -

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Education Act 1996;

"the associated documents" ("*y dogfennau cysylltiedig*") means the documents published by the Authority, setting out levels of attainment, attainment targets and programmes of study in relation to the relevant subjects, which documents have effect by virtue of the respective section 356(2)(a) and (b) orders for those subjects for the time being in force(**b**);

"AT" ("*TC*") means attainment target;

"the Authority" ("*yr Awdurdod*") means the authority known as the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales(**c**);

"maintained school" ("*ysgol a gynhelir*") has the meaning given to it by section 350(1) of the Act(**d**);

"the National Assembly" ("*y Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"the relevant subjects" ("*y pynciau perthnasol*") means -

(i) mathematics and science;

(ii) in relation to schools and classes which are Welsh-speaking, Welsh; and

(iii) in relation to schools and classes which are not Welsh-speaking, English;

"section 356(2)(a) and (b) orders" ("*gorchmynion adran 356(2)(a) a (b)*") means orders made under section 356(2)(a) and (b) of the Act specifying attainment targets and programmes of study in relation to the relevant subjects;

"specified" ("*a bennir*"), unless the context otherwise requires, means specified, in relation to the first key stage, by a section 356(2)(a) and (b) order;

"summer term" ("*tymor yr haf*") means the third term

(a) S.I. 1997/2011.

(b) The current orders are S.I. 2000/1154 (W.85) (English), S.I. 2000/1101 (W.79) (Welsh), S.I. 2000/1100 (W.78) (mathematics) and S.I. 2000/1099 (W.77) (science).

(c) The Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales was established by section 14(1)(b) of the Education Reform Act 1988 (c.40), continued in existence by section 360 of the Education Act 1996 and given its current name by section 27(1) of the Education Act 1997 (1997 c.34).

(d) Section 350(1) was substituted by paragraph 85 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998.

tymor mewn blwyddyn ysgol;

mae i "ysgol a gynhelir" yr ystyr a roddir i "*maintained school*" gan adran 350(1) o'r Ddeddf(**a**);

mae cyfeiriad at ddosbarth neu ysgol cyfrwng Cymraeg yn gyfeiriad yn eu tro at ddosbarth neu ysgol lle, mewn perthynas â disgyblion yn y cyfnod allweddol cyntaf, addysgir mwy na hanner o'r pynciau canlynol, sef -

(i) addysg grefyddol; a

(ii) y pynciau heblaw Cymraeg a Saesneg sy'n bynciau sylfaen mewn perthynas â disgyblion yn y cyfnod allweddol cyntaf,

(yn gyfan gwbl neu'n rhannol) yn Gymraeg;

rhaid dehongli cyfeiriadau at y cyfnod allweddol cyntaf yn unol â'r cyfeiriad at "*the first key stage*" yn adran 355 o'r Ddeddf; ac

onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall mae cyfeiriadau at lefelau cyrhaeddiad, targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio yn gyfeiriadau at y lefelau, y targedau a'r rhaglenni sydd wedi'u nodi yn y dogfennau cysylltiedig.

(2) Os nad yw unrhyw rif cyfartalog y mae'n ofynnol ei benderfynu drwy'r Gorchymyn hwn yn rhif cyfan, rhaid ei dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, gan dalgrynnu'r ffracsiwn un hanner i fyny i'r rhif cyfan nesaf.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl yn y Gorchymyn hwn sy'n dwyn y rhif hwnnw ac mae unrhyw gyfeiriad at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn yr erthygl y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddi.

**Asesiadau athrawon**

**4**. -(1) Bydd yn ddyletswydd ar y pennaeth i wneud trefniadau i bob disgybl gael ei asesu gan athro neu athrawes ym mhob pwnc perthnasol yn ystod tymor yr haf yn unol â darpariaethau'r erthygl hon a bod cofnod o'r canlyniadau yn cael ei wneud gan yr athro hwnnw neu'r athrawes honno.

(2) Diben yr asesu fydd penderfynu'r lefel cyrhaeddiad y mae'r disgybl wedi'i chyrraedd ym mhob TC a bennir ar gyfer pob pwnc perthnasol sy'n gymwys i'r disgybl ac, oni bai bod erthygl 6(3) yn gymwys, yn y pwnc fel y'i cyfrifir yn unol ag erthygl 5.

(3) Rhaid i'r athro neu'r athrawes asesu'r disgybl a chofnodi'r canlyniadau erbyn pythefnos cyn diwedd tymor yr haf fan bellaf.

(4) Bydd y cofnod o'r canlyniadau yn cynnwys datganiad ynghylch pob lefel cyrhaeddiad y mae'r

(a) Amnewidiwyd adran 350(1) gan baragraff 85 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

in a school year;

a reference to a class or school which is Welsh-speaking is a reference respectively to a class or school in which, in relation to pupils in the first key stage, more than one half of the following subjects namely -

(i) religious education; and

(ii) the subjects other than English and Welsh which are foundation subjects in relation to pupils in the first key stage,

are taught (wholly or partly) in Welsh;

references to the first key stage shall be construed in accordance with section 355 of the Act; and

unless the context otherwise requires references to levels of attainment, attainment targets and programmes of study are references to the levels, targets and programmes set out in the associated documents.

(2) Where any average number required to be determined by this Order is not a whole number, it shall be rounded to the nearest whole number, the fraction of one half being rounded upwards to the next whole number.

(3) In this Order, unless the context otherwise requires, any reference to a numbered article is a reference to the article in this Order so numbered and any reference to a numbered paragraph is a reference to the paragraph so numbered in the article in which the reference appears.

**Teacher assessment**

**4**.-(1) It shall be the duty of the head teacher to make arrangements for each pupil to be assessed by a teacher in each relevant subject during the summer term in accordance with the provisions of this article and for a record of the results to be made by that teacher.

(2) The purpose of the assessment shall be to determine the level of attainment achieved by the pupil in each AT specified for each relevant subject which applies to the pupil and, except where article 6(3) applies, in the subject as calculated in accordance with article 5.

(3) The pupil shall be assessed and a record of the results made by the teacher not later than two weeks before the end of the summer term.

(4) The record of the results shall consist of a statement of each level of attainment achieved by the

disgybl wedi'i chyrraedd (p'un a yw'r lefel honno yn lefel a bennir mewn perthynas â'r cyfnod allweddol cyntaf o dan y gorchymyn adran 356(2)(a) a (b) perthnasol neu beidio) mewn perthynas â phob TC a grybwyllir ym mharagraff (2) ac, oni bai bod erthygl 6(3) yn gymwys, lefel y disgybl yn y pwnc fel y'i cyfrifir yn unol ag erthygl 5.

pupil (whether or not that level is specified in relation to the first key stage by the relevant section 356(2)(a) and (b) order) in relation to every AT mentioned in paragraph (2) and, except where article 6(3) applies, the pupil's level in the subject as calculated in accordance with article 5.

(5) Wrth asesu disgybl yn unol â'r erthygl hon gall athro neu athrawes gymryd i ystyriaeth ganlyniadau unrhyw asesiadau blaenorol o'r disgybl (gan gynnwys asesiadau drwy gyfrwng tasgau safonol o dan y Gorchymyn sy'n cael ei ddiddymu gan erthygl 2), p'un a oedd yr asesiadau blaenorol wedi'u gwneud gan yr athro hwnnw neu'r athrawes honno neu beidio.

(5) In making an assessment of a pupil pursuant to this article a teacher may take into account the results of any previous assessments of the pupil (including assessments by means of standard tasks under the Order revoked by article 2), whether or not the previous assessments were made by that teacher.

**Penderfynu cyrhaeddiad yn ôl y pwnc: asesiadau athrawon**

**5**.-(1) Yn ddarostyngedig i erthygl 6, mae darpariaethau'r erthygl hon yn rheoli agregiad lefelau cyrhaeddiad TC sy'n cael eu penderfynu yn unol ag erthygl 4 i gyfrifo lefelau cyrhaeddiad mewn pynciau.

(2) Yn achos y Saesneg, cyfartaledd lefel y disgybl ym mhob TC fydd lefel cyrhaeddiad y disgybl yn y pwnc.

(3) Yn achos y Gymraeg, cyfartaledd lefel y disgybl ym mhob TC ond gyda'i lefel yn TC1 (llafar, (siarad, gwrando a gwylio)) wedi'i phwysoli â ffactor o ddau fydd lefel cyrhaeddiad y disgybl yn y pwnc.

(4) Yn achos mathemateg, cyfartaledd lefel y disgybl ym mhob TC ond gyda'i lefel yn TC2 (rhifau ac algebra) wedi'i phwysoli â ffactor o ddau fydd lefel cyrhaeddiad y disgybl yn y pwnc.

(5) Yn achos gwyddoniaeth, cyfartaledd lefel y disgybl ym mhob TC ond gyda'i lefel yn TC1 (ymchwil wyddonol) wedi'i phwysoli â ffactor o dri fydd lefel cyrhaeddiad y disgybl yn y pwnc.

**Determination of attainment by subject: teacher assessment**

**5**.-(1) Subject to article 6, the provisions of this article regulate the aggregation of AT levels of attainment determined in accordance with article 4 to calculate subject levels of attainment.

(2) In the case of English, a pupil's level of attainment in the subject shall be the average of the pupil's level in each AT.

(3) In the case of Welsh, a pupil's level of attainment in the subject shall be the average of the pupil's level in each AT but with his or her level in AT1 (oral, (speaking, listening and viewing)) weighted by a factor of two.

(4) In the case of mathematics, a pupil's level of attainment in the subject shall be the average of the pupil's level in each AT but with his or her level in AT2 (number and algebra) weighted by a factor of two.

(5) In the case of science, a pupil's level of attainment in the subject shall be the average of the pupil's level in each AT but with his or her level in AT1 (scientific enquiry) weighted by a factor of three.

**Disgyblion nad ydynt yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Cwricwlwm Cenedlaethol**

**6**.-(1) Bydd effaith i erthygl 5 mewn perthynas â disgyblion nad yw darpariaethau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn gymwys iddynt (gan gynnwys disgyblion â datganiadau anghenion addysgol arbennig) gyda'r addasiadau a bennir yn yr erthygl hon.

(2) Os nad yw un TC mewn pwnc perthnasol yn gymwys i ddisgybl o'r fath, bydd effaith i erthygl 5 fel petai'r nifer o TC sydd yn gymwys i'r disgybl yn gyfanswm y TC yn y pwnc.

(3) Os nad oes mwy nag un TC mewn pwnc perthnasol yn gymwys i ddisgybl o'r fath, ni fydd erthygl 5 yn gymwys i'r disgybl mewn perthynas â'r pwnc hwnnw a rhaid peidio â phenderfynu unrhyw lefel cyrhaeddiad ar ei gyfer mewn perthynas â'r pwnc hwnnw.

**Pupils not subject to provisions of the National Curriculum**

**6**.-(1) Article 5 shall have effect in relation to pupils as respects whom provisions of the National Curriculum do not apply (including pupils with statements of special educational needs) with the modifications specified in this article.

(2) Where one AT in a relevant subject does not apply to such a pupil, article 5 shall have effect as if the number of ATs applying to the pupil were the total number of ATs in the subject.

(3) Where more than one AT in a relevant subject does not apply to such a pupil, article 5 shall not apply to the pupil in relation to that subject and no level of attainment shall be determined for him or her in respect of that subject.

**Gwerthuso trefniadau asesu**

**7**. Rhaid i'r Awdurdod wneud unrhyw drefniadau y maent yn ymddangos iddynt eu bod yn briodol ar gyfer penderfynu i ba raddau y mae darpariaethau erthyglau 4 i 6 a'u gweithrediad yn sicrhau'r diben a grybwyllir yn erthygl 1(2).

**Pwerau atodol y Cynulliad Cenedlaethol**

**8**. Gall y Cynulliad Cenedlaethol wneud darpariaethau o'r fath sy'n rhoi effaith lawn i'r darpariaethau sy'n cael eu gwneud gan y Gorchymyn hwn neu sy'n ychwanegu atynt fel arall (heblaw darpariaethau sy'n rhoi neu sy'n gosod swyddogaethau fel a grybwyllir yn adran 356(5)(a) o'r Ddeddf) y mae'n ymddangos iddo eu bod yn hwylus.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

14 Ionawr 2002

Prif Ysgrifennydd y Cynulliad Cenedlaethol

**Evaluation of Assessment Arrangements**

**7**. The Authority shall make such arrangements as seem to them appropriate for determining the extent to which the provisions of articles 4 to 6 and their implementation achieve the purpose mentioned in article 1(2).

**Supplementary powers of the National Assembly**

**8**. The National Assembly may make such provisions giving full effect to or otherwise supplementing the provisions made by this Order (other than provisions conferring or imposing functions as mentioned in section 356(5)(a) of the Act) as appear to it to be expedient.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

14th January 2002

*Rhodri Morgan*

The First Secretary of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2002 Rhif 45 (Cy.4)

## ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2002

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2002 No. 45 (W.4)

## EDUCATION, WALES

# The Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for English, Welsh, Mathematics and Science) (Key Stage 1) (Wales) Order 2002

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090412-5

9 780110 904122

**£2.00**

W425/02/02 ON